**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 13 eg Mawrth 2006 |
| ADRODDIAD GAN: | **CHRIS ENNESS,**<br>**DIRPRWY BRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am y penderfyniadau a wnaed gan y Prif Swyddog Tân yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd ynghylch ymestyn tâl salwch. |

1. **YMESTYN TÂL SALWCH**

1.1 Ers cyfarfod y Panel Gweithredol ar 26ain Hydref 2005, caniatawyd tri estyniad i dâl salwch.

1.2 Mewn un achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad ar 100% o dâl llawn am gyfnod o ddeufis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

1.3 Mewn un achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn a phedwar mis pellach ar dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad ar 100% o dâl llawn am gyfnod o ddeufis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf

1.4 Mewn un achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn a deuddeg mis pellach ar 50% o dâl llawn wedi dod i ben, a chaniatawyd estyniad ar 50% o dâl llawn am gyfnod o fis, neu ddychwelyd i'r waith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

1.5 Yn y cyfnod dan sylw, mae'r personél i gyd yn aelodau rhan amser o'r ochr lifrai o'r Gwasanaeth

2. **ARGYMHELLIAD**

2.1 Nodi'r adroddiad.